



Cyngor Bro Morgannwg

# Cynllun Gwella Cryno

2013



Amcanion Gwella 2012/13	Meysydd Canlyniad Cynllun Corfforaethol 2010-14
1. Gwella ansawdd a safon tai'r sector preifat yn ardal Castleland.	Adfywio Hybu datblygiad cymunedau cynaliadwy
2. Cymryd llai o amser i ddarparu grantiau ar gyfer cyfleusterau i blant, pobl ifanc ac oedolion anabl, fel y bo ein perfformiad o leiaf cystal â pherfformiad Cymru'n gyffredinol yn ystod 2010-2011.	Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned
3. Defnyddio ynni'n fwy effeithiol drwy hybu arferion cynaliadwy yn ein busnes er mwyn lleihau ôl troed carbon y Cyngor.	Adnoddau Corfforaethol Gwneud y gorau o'n hasedau
4. Ailgylchu mwy er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013.	Adfywio Gwarchod a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig y Fro
5. Cynyddu'r gyfran o stoc dai'r Cyngor sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, erbyn 31 Mawrth 2014.	Adfywio Hybu datblygiad cymunedau cynaliadwy
6. Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd er mwyn cyrraedd safon berfformio chwartert uchaf Cymru yn ystod 2011/12.	Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Codi lefel gyflawni disgyblion
7. Gwneud y gorau o'n holl adeiladau.	Adnoddau Corfforaethol Gwneud y gorau o'n hasedau
8. Datblygu dulliau effeithiol a chynaliadwy o gynllunio'r gweithlu ar gyfer y Cyngor.	Adnoddau Corfforaethol Darparu gwasanaethau cyngor o'r safon uchaf bosibl



Sgwâr y Brenin, y Barri  
Llyn y Cnap, y Barri  
Machlud haul ym Mhenarth

## Adroddiad Cryno 2013

### 1. Gwella ansawdd a safon tai'r sector preifat yn ardal Castleland.

Mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni i raddau. Mae'r gwaith gwella'n parhau, ac y mae cynlluniau yn eu lle ar gyfer prosiectau ymarferol a fedr gyflawni'r amcan yn llwyr o fewn yr amser a ganiateir ar gyfer y prosiect.

Ar y cyfan, y mae'r cynllun adfywio newydd wedi helpu i godi safon tai pobl yr ardal. Mae rhaglen 'weddnewid' bum mlynedd ar gyfer gwella blaen tai wedi gwella golwg strydoedd Castleland. 353 o dai a ddaeth yn rhan o'r rhaglen weddnewid yn ystod 2013. 346 o dai a gafodd eu gwella yn ystod y flwyddyn flaenorol a thros 90% o drigolion a gymerodd ran yn y cynllun yn ystod y ddwy flynedd yma. Mae trefniadau i wella 260 o dai ychwanegol erbyn Mawrth 2014.



Lyfrgell y Sir, y Barri

Hen weithiau calch, Aberddawan

Parc sglefrio yn y Bont-faen

### 2. Cymryd llai o amser i ddarparu grantiau ar gyfer cyfleusterau i blant, pobl ifanc ac oedolion anabl, fel y bo ein safon berfformio gystal o leiaf â safon Cymru'n gyffredinol yn ystod 2010-2011 (sef 368 o ddiwrnodau).

Drwy lwyddo i ddarparu grantiau ar gyfer cyfleusterau i blant, pobl ifanc ac oedolion anabl o fewn 346 o ddiwrnodau yn ystod 2012/13, y mae'r cyngor wedi dod i ben yn llwyr â'r amcan gwella a ofynnai am leihau'r cyfnod darparu i 386 o ddiwrnodau.

Mae'r broses ar gyfer darparu'r grantiau hyn wedi'i symleiddio yn sgîl adolygu'r holl fframwaith yn fanwl yn rheolaidd. Mae tendro electronig yn arferol erbyn hyn. Mae therapydd galwedigaethol yn y tîm wedi'i noddi gan y cyngor. Bu hyn o gymorth i ni ymateb yn gyflymach a dod yn fwy medrus yn darparu gwasanaeth di-dor i'n cwsmeriaid. Rydym wedi llunio canllawiau newydd a'u hegluro i'n holl staff er mwyn cael bod yn gyson wrth ymdrin â grantiau ar gyfer cyfleusterau i bobl anabl.

Bu pobl anabl yn aros am lai a llai o amser am grantiau ar gyfer cyfleusterau yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf. Yn ôl adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru (2011/12), Bro Morgannwg yw'r awdurdod sydd wedi gwella fwyaf o safbwynt darparu'r grantiau hyn.

### 3. Defnyddio ynni'n fwy effeithiol drwy hybu arferion cynaliadwy yn ein busnes er mwyn lleihau ôl troed carbon y Cyngor.

Mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni'n llwyr, ond byddwn yn dal i weithio er mwyn cael bod yn fwy cynnil fyth.

Gwnaethpwyd cryn dipyn o waith yn y cyngor yn ystod 2012/13 i'n helpu i ddefnyddio llai o ynni a chwtdogi ar allyriadau carbon. O ganlyniad, bu 11.05% yn llai o allyriadau carbon yn ystod 2012/13 nag yn ystod y flwyddyn flaenorol.

#### 4. Ailgylchu mwy er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013.

Er bod yr amcan hwn wedi'i gyflawni'n llwyr, gwnawn ein gorau i ailgylchu ac aildefnyddio mwy fyth o'n gwastraff.

Er mwyn denu mwy o bobl i ailgylchu, gwnaethom ymdrech arbennig i hwyluso'r broses i deuluoedd. Ers dechrau casglu deunydd ailgylchu cymysg yn wythnosol ym Medi 2011, bu cynnydd o rwng tri deg a phedwar deg y cant yn nifer y tunellau o ddeunydd sy'n cael ei ailgylchu.

Drwy gynnal cynlluniau ymarferol fel ymgyrchoedd a sioeau teithiol 'beth sy' yn eich bin?', bwrw wrth ddrysau ac ymgyrchu yn y cyfryngau er mwyn targedu'r ardaloedd hyn, cafwyd cynnydd. Denwyd mwy o bobl i ailgylchu a bu mwy ailgylchu mewn rhannau o'r Fro a fu gynt yn perfformio'n wael.

#### 5. Cynyddu'r gyfran o stoc dai'r Cyngor sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, erbyn 31 Mawrth 2014.

Er bod yr amcan hwn yn cael ei gyflawni, byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod pob tŷ cyngor yn cyrraedd y safon ansawdd.

Caiff £82m eu gwario dros gyfnod o 4.5 o flynyddoedd er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae strategaeth rheoli asedau tai a chynllun gweithredu eisoes yn eu lle er mwyn i ni gael cyrraedd y safon yn llwyr erbyn Ebrill 2017.

Gwaith mewnol sydd wedi mynd â'n bryd hyd yn hyn. Gosodwyd 426 o systemau gwresogi, 140 o doeon a 71 o ffenestri newydd er mwyn i'r tai allu gwrthsefyll y tywydd garw'n well.



Stryd Fawr, y Bont-faen  
Parc Alexandra, Penarth  
Neuadd y Dref, Llanilltud Fawr

#### 6. Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd er mwyn cyrraedd safon berfformio chwartert uchaf Cymru yn ystod 2011/12.

Er bod presenoldeb yn ysgolion uwchradd y Fro wedi gwella'n gyffredinol, ni lwyddwyd hyd yn hyn i gyrraedd safon y chwartert uchaf.

Yn ystod 2011/12, cynyddodd y ffigurau ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion uwchradd o 1.44% i 92.81%. Roedd hynny'n gosod cyngor y Fro'n 7fed ac yn yr ail chwartert o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru. Er mwyn bod yn y chwartert uchaf, buasai'n rhaid i'r cyngor gael ei raddio'n 5ed neu'n uwch na hynny.

Er mwyn parhau i wella'n perfformiad, yr ydym wedi sefydlu Fforwm Presenoldeb misol sy'n monitro targedau presenoldeb ysgolion unigol. Mae'r ysgolion sydd wedi cyflwyno ffigurau is na'r rhelyw ar gyfer presenoldeb a/neu rhai uwch ar gyfer absenoldeb heb ganiatâd, wedi'u targedu ar gyfer cymorth. Bydd presenoldeb disgyblion bregus, gan gynnwys rhai sy'n cael gofal neu mewn perygl o droseddu'n cael eu monitro'n ofalus.

## 7. Gwneud y gorau o'n holl adeiladau.

Er i ni gyflawni'r amcan hwn yn llwyr, yr ydym yn dal i ymdrechu i wneud y gorau o'r eiddo sydd gennym.

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol wedi'i ddiweddarau ac yn dangos yn union sut y bydd asedau o gymorth i weithredu amcanion corfforaethol.

Rydym wedi llunio rhaglen buddsoddi cyfalaf er mwyn sicrhau bod ein hen adeiladau'n hygyrch, eu bod yn defnyddio ynni'n effeithlon a bod yr ynni hwnnw wedi'i gynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy drwy ddefnyddio cyfarpar fel paneli heulol a phympiau gwres daear. Byddwn hefyd yn gwella goleuadau a chyfleusterau cyffredinol.

Rydym wrthi'n datblygu'r 'Prosiect Lle' sy'n adolygu ein hangen am le yng ngoleuni cwtogi ar staff a newid patrwm darparu gwasanaethau er mwyn lleihau costau. Byddwn yn darparu swyddfeydd newydd ac yn addasu hen swyddfeydd i greu gweithle cynllun agored yn bennaf, sy'n defnyddio lle'n effeithiol. Am y bydd mwy o le yn yr adeilad i'w rannu, ni fydd angen cymaint o weithfannau pwrpasol a bydd mwy o newid desgiau.

Mae'r cyngor yn gyfrifol am lai o eiddo erbyn hun ac y mae wedi datblygu strategaeth rheoli asedau ar y cyd â'i bartneriaid (sef y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a chynghorau eraill). Bydd hyn yn gofyn am gydweithio â chynghorau eraill ac achub pob cyfle posibl i gydleoli gwasanaethau.



Ardal y Glannau, y Barri

Parc Belle Vue, Penarth

Hen dref Lanilltud Fawr

## 8. Datblygu dulliau effeithiol a chynaliadwy o gynllunio'r gweithlu ar gyfer y Cyngor.

Mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni i raddau, a byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod y broses o gynllunio'r gweithlu'n dod yn rhan o ddiwylliant y sefydliad.

Mae'r cyngor wedi cytuno ar Gynllun Gweithlu ac y mae wrthi'n ei weithredu.

Mae'r drefn uwch reoli wedi'i diwygio ym mhob rhan o'r cyngor a'r cyfarwyddiaethau gwasanaethau wedi'u had-drefnu. Mae trefn gyflogi unffurf yn cael ei gweithredu ar gyfer mwy na 4,500 o weithwyr erbyn hyn.

Am ein bod bellach yn annog pobl i'w helpu eu hunain pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau Adnoddau Dynol, bu'n haws rhoi cefnogaeth berthnasol i reolwyr. Bu hyn o gymorth i ni wneud mwy o ddefnydd o ddulliau gweithio a chontractau hyblyg, a thrwy hynny cynnig gwasanaethau sy'n darparu'n well ar gyfer anghenion ein cwsmeriaid. Mae mwy o brentisiaethau lleol ar gael yn y cyngor erbyn hyn.

Bu staff a rheolwyr yn nodi sgiliau allweddol ar gyfer y dyfodol drwy adolygu perfformiad a datblygiad bob blwyddyn. Mae rhaglen datblygu sgiliau eisoes wedi cychwyn.

Cewch fwy o wybodaeth am yr amcanion hyn yn y Cynllun Gwella sydd i'w weld ar wefan y cyngor [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)